# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PANEL ARIANNU ALLANOL

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 5 GORFFENNAF 2017 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**:

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| J E Burtonshaw | M C Child | W Evans |
| R Francis-Davies | D H Hopkins | C E Lloyd |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Alan Ferris | Uwch Beiriannydd |
| Spencer Martin | Cydlynydd Perthnasoedd y Sector Gwirfoddol |
| Elliott Williams | Rheolwr Ariannu Allanol |
| Sandie Richards | Cyfreithiwr |
| Gaynor Winsor | Cyfrifydd |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): A S Lewis, J A Raynor, R C Stewart a/ac M Thomas

1 **ETHOL CADEIRYDD AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2017-2018.**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd R C Stewart yn gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2017-2018.

2 **ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER BLWYDDYN DDINESIG 2017-2018.**

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd C E Lloyd yn is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2016-2017.

**(Y CYNGHORYDD C E LLOYD, IS-GADEIRYDD A FU'N LLYWYDDU)**

3 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y buddiannau canlynol: -

Y Cynghorydd C E Lloyd – Cofnod Rhif 7 – Llwybrau Mwy Diogel mewn Cymunedau – Mae fy ward i, St. Thomas, yn elwa o'r argymhelliad – personol.

4 **COFNODION:**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y Panel Ariannu Allanol gynhaliwyd ar 5 Ebrill 2017 yn gofnod cywir.

5 **CAIS AM GRANT DIOGELWCH FFYRDD LLYWODRAETH CYMRU 2017/18.**

Cyflwynodd yr Uwch Beiriannydd adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth ar Gais Grant Diogelwch Ffyrdd Llywodraeth Cymru 2017/18.

Nod y cais am gyllid oedd cefnogi mentrau allweddol i gynnal a chadw a gwella diogelwch ar y ffyrdd yn ardal y sir i helpu i gyrraedd targedau a nodwyd yn Fframwaith Diogelwch Ffyrdd ar gyfer Cymru 2013. Yn arbennig, ei nod oedd cyrraedd y targedau canlynol:

- 40% llai o bobl yn cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru;
- 25% llai o yrwyr beiciau modur yn cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru;
- 40% llai o bobl ifanc (rhwng 16 a 24 oed) yn cael eu lladd a'u hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Cymru.

Roedd cyflwyno'r cais am gyllid yn seiliedig ar gais i Lywodraeth Cymru yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn newydd am gyllid a fyddai'n cael ei dderbyn yn ystod y flwyddyn ariannol ganlynol a'r tu hwnt. Roedd y cais datblygu hefyd yn cefnogi blaenoriaethau'r cyngor i ddiogelu pobl ddiamddiffyn (atal damweiniau i blant a phobl ifanc) a threchu tlodi drwy adeiladu cymunedau cynaliadwy (annog cerdded a beicio).

**PENDERFYNWYD** caniatáu i swyddogion dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn cefnogi'r mentrau diogelwch ffyrdd canlynol: -

1) Adnewyddu Camerâu Diogelwch Ffyrdd;
2) Arwyddion SID Gellifedw i Glais;
3) Menter i gerddwyr rhwng Cylchfan Cwm Level i Gylchfan Heol Normandy.

6 **CAIS AM GRANT LLWYBRAU MWY DIOGEL MEWN CYMUNEDAU LLYWODRAETH CYMRU 2017/18.**

Cyflwynodd yr Uwch Beiriannydd adroddiad a oedd yn rhoi gwybodaeth am gais am gyllid Llwybrau Mwy Diogel mewn Cymunedau Llywodraeth Cymru 2017/18.

Esboniwyd bod y fenter Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn gwella darpariaeth llwybrau i gerddwyr ac i feicwyr mewn cymunedau, yn enwedig y tu allan i ysgolion ac o'u hamgylch. Nod hyn oedd annog ffordd fwy cynaliadwy o fyw mewn cymunedau a mynd i'r afael â materion eithrio cymdeithasol. Roedd cyflwyno'r cais am gyllid yn seiliedig ar gais i Lywodraeth Cymru yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn newydd am gyllid a fyddai'n cael ei dderbyn yn ystod y flwyddyn ariannol ganlynol a'r tu hwnt.

Roedd y fenter yn gysylltiedig â pholisïau cenedlaethol megis Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, Fframwaith Diogelwch Ffyrdd ar gyfer Cymru 2013, Teithio gan Ddysgwyr - Darpariaeth Statudol a Chanllawiau Gweithredol 2014. Y nod cyffredinol oedd creu llwybrau cerdded a beicio mwy diogel i gymunedau a hyrwyddo'r rhain fel ffordd fwy cynaliadwy o deithio o amgylch cymunedau. Byddai hefyd yn helpu i

leihau tagfeydd y tu allan i ysgolion petai dulliau mwy cynaliadwy o gludiant yn cael eu defnyddio.

Roedd y fenter hefyd yn cefnogi blaenoriaethau'r cyngor i ddiogelu pobl ddiamddiffyn (atal damweiniau i blant a phobl ifanc), gwella cyrhaeddiad disgyblion (gan gynnwys disgyblion yn y broses) a threchu tlodi ac adeiladau cymunedau cynaliadwy (annog cerdded a beicio).

**PENDERFYNWYD:** -

1) caniatáu i swyddogion dderbyn cyllid Llwybrau Diogel mewn Cymunedau (SRIC);
2) Datblygu a gweithredu prosiectau sy'n creu llwybrau cerdded mwy diogel, yn enwedig o amgylch ysgolion yn St Thomas.

## 7 CRONFA TRAWSNEWID GWEITHREDU YN Y GYMUNED.

Cyflwynodd Cydlynydd Perthnasoedd y Sector Gwirfoddol adroddiad a oedd yn gofyn i'r panel benderfynu ceisiadau ar gyfer chweched rownd y Gronfa Trawsnewid Gweithredu yn y Gymuned (CAFT).

Esboniwyd bod y canlynol wedi cyflwyno cais am gefnogaeth gan y gronfa. Y cyfanswm a argymhellwyd o ran cefnogaeth oedd £59,300: -

1. Cymdeithas Fowls Dinas a Sir Abertawe – cyllid ar gyfer tri safle yn Abertawe;
2. Clwb Pêl-droed Amatur Brynawel – safle yng nghaeau chwarae Parc Halfway, y Trallwn;
3. Clwb Pêl-droed Amatur Talycopa – safle yng nghaeau chwarae'r Trallwn;
4. Clwb Bowls yr Hafod – Lawnt Fowls ym Mharc yr Hafod.

Dywedwyd mai'r chweched rownd fydd rownd derfynol y Gronfa Trawsnewid Gweithredu yn y Gymuned ac nad oes darpariaeth ar ei chyfer yng nghyllideb 2017/18.

**PENDERFYNWYD:** -

1) peidio â chefnogi'r ceisiadau a gyflwynwyd i'r gronfa, gan fod y gyllideb ar gyfer y gronfa wedi'i dihysbyddu ac ni chlustnodwyd cyllid ar gyfer cyllideb 2017/18;
2) rhoi terfyn ar y Gronfa Trawsnewid Gweithredu yn y Gymuned;
3) y dylai swyddogion barhau i gefnogi grwpiau a sefydliadau cymunedol gyda cheisiadau Trosglwyddo Asedau.

## 8 GWAHARDD Y CYHOEDD.

Gofynnwyd i'r panel wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodwyd ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y panel Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle roedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol, fel a nodwyd yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

9 **TROSOLWG O'R CEISIADAU PRESENNOL A'R RHAI SYDD AR DDOD AM ARIAN EWROPEAIDD AC ALLANOL.**

Rhoddwyd diweddariad ar geisiadau Ewropeaidd presennol ac arfaethedig a cheisiadau allanol eraill gan y Rheolwr Ariannu Allanol.

**PENDERFYNWYD:** -

1) y dylid nodi'r diweddaraf am brosiectau yn adrannau 2 i 9
2) cefnogi cyflwyniad TRhG i WEFO er mwyn cynnig datblygu a chyflwyno cynllun lleihau tagfeydd trefol Dyfaty a Phontydd Tawe;
3) cefnogi cyflwyno TRhG a chynllun busnes i WEFO er mwyn cyflwyno prosiect cyflogadwyedd CGE i'r di-waith diamddiffyn tymor byr yn Abertawe;
4) cefnogi cais i Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru ar gyfer adnewyddu Llyfrgell Townhill a chytuno ar y cais dilynol.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.35 pm

**CADEIRYDD**